**LGH-03-02 (min)**

## Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Iau 7 Chwefror 2002 |
| **Amser:** | 1.30pm hyd 3.20pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas | Castell-nedd |
| (Cadeirydd) | |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| (Dirprwy Weinidog) | |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| Jim Cowan | ELWa |
| Derith Powell | Menter Cwm Aman |
| Irene Norman | Coleg Llandrillo, Coleg y Rhyl |
| Jenny Turner | Community Agents of Change for the Valleys |

| | |
|---|---|
| Yr Athro Dave Adamson | Ymgynghorydd Arbenigol |

*Ysgrifenyddiaeth:*

| | |
|---|---|
| Roger Chaffey | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau agoriadol**

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi derbyn gwybodaeth yngln â'r trefniadau ar gyfer amserlen yr haf. Roedd wedi cysylltu â'r Dirprwy Lywydd wedyn i ailadrodd dymuniad mwyafrif Aelodau'r Pwyllgor am i'r cyfarfodydd yn nhymor yr haf gael eu trefnu ar gyfer y prynhawn.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau a dirprwyon**

1. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Janet Davies, Edwina Hart a Janet Ryder.

**Eitem 2: Datgan buddiannau**

2. Gwnaed y datganiadau isod:

- Dywedodd Peter Black ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Dywedodd William Graham ei fod yn Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd;
- Dywedodd Dai Lloyd ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

**Eitem 3: Adolygiad polisi adfywio cymunedol – Sesiwn ymgynghori llafar**

3.1 Gwahoddodd y Cadeirydd y cynrychiolwyr i wneud eu cyflwyniadau gerbron y Pwyllgor.

3.2 Amlinellodd Jim Cowan weledigaeth arfaethedig y Cyngor Cenedlaethol – ELWa a'i amcanion yn sgîl hynny, fel yr oeddynt wedi'u nodi yn ei gynllun corfforaethol. Bu ‘cymunedau’ yn thema bwysig yn y trafodaethau drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r strategaeth a chytunwyd ar ddiffiniad wedi hynny. Dywedodd fod dysgu cymunedol wedi'i fwriadu i adfywio cymuned drwy ddatblygu addysg a sgiliau ei phobl ac i atgyfnerthu'r gymuned.

3.3 Amlinellwyd y gwahanol fathau o ddysgu cymunedol. Roedd gweithgaredd sy'n cael ei arwain gan y gymuned ac sydd wedi'i seilio ynddi yn chwarae rôl allweddol ar y dechrau yn denu'r sawl sydd â diffyg hyder neu brofiad i ymddiddori mwy mewn dysgu ffurfiol. Seilir y gweithgaredd hwn ar grwpiau a chyrff cymunedol sydd â hygrededd yn lleol, sy'n deall anghenion y gymuned ac sydd â'r hyblygrwydd i ddiwallu'r anghenion hynny. Ar hyn o bryd, nid oedd y systemau a'r strwythurau i gyflwyno a gwerthuso dysgu a darparu'r adnoddau ar ei gyfer yn addas yn gyffredinol i ddatblygu cymunedau sy'n dysgu.

3.4 Dywedodd Jim Cowan fod y Cyngor Cenedlaethol – ELWa, drwy weithio drwy gymunedau, grwpiau a chyrff cymunedol, yn ceisio gweithio gyda'i bartneriaid allweddol i ganfod ffyrdd o gyrraedd y rheini sydd ar hyn o bryd wedi'u cau allan o gyfleoedd dysgu. Amlinellodd eu nodau wrth dywys hyn yn ei flaen.

3.5 Dros y flwyddyn nesaf, byddai'r Cyngor Cenedlaethol – ELWa yn cynnal gwerthusiad manwl o'r dulliau a'r gweithgareddau dysgu cymunedol presennol; byddai'n adolygu addysg barhaus i oedolion; yn treialu ffyrdd newydd o gynyddu'r galw am ddysgu cymunedol mewn cymunedau y rhoddir blaenoriaeth iddynt; ac yn datblygu a chefnogi anghenion y sectorau gwirfoddol a chymunedol o fewn rhaglenni dysgu.

3.6 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cytunai'r Pwyllgor fod dysgu anffurfiol yn chwarae rôl holl-bwysig yn datblygu addysg a sgiliau cymunedau, yn enwedig felly ddysgu a ddaw o gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol, chwaraeon a hamdden. Roedd defnyddio dulliau arloesol i ddenu unigolion sydd yn draddodiadol wedi'u cau allan o gyfleoedd addysg a dysgu yn hynod bwysig.

- Nodwyd bod dysgu drwy weithgareddau anffurfiol, sydd yn aml o fudd i'r bobl sydd â'r diffyg mantais mwyaf mewn cymunedau, yn creu problemau o ran achredu a mesur canlyniadau. Awgrymodd Jim Cowan y dylid rhoi'r hyblygrwydd i ELWa i fabwysiadu dulliau arloesol ac i gymryd risg lle bo'r risg honno yn cael ei rheoli. Dywedodd fod fframwaith credydau i Gymru yn cael ei ddatblygu a fyddai, gobeithio, yn cymryd y llwybr hyfforddi anffurfiol i ystyriaeth.

- Dywedodd Jim Cowan fod gan ELWa rôl bwysig o ran meithrin gallu i ddatblygu cymwyseddau unigol a chyfalaf cymdeithasol. Dywedodd fod yna arferion da ymysg darparwyr sy'n llwyddo'n aml i feithrin gallu drwy brosesau anffurfiol. Roedd y rhain yn aml yn annog unigolion i ddatblygu sgiliau hanfodol a chymwyseddau sylfaenol. Roedd angen rhyw lefel o sgil cyn y gellir gwireddu awydd unigolion i ddysgu.

- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â rôl ELWa yn tywys y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn ei blaen.

3.7 Dywedodd Derith Powell fod y gymuned yn chwarae rôl holl-bwysig o ran tywys adfywio cymunedol yn ei flaen. Roedd yn rhaid sicrhau bod mecanweithiau wedi'u sefydlu i gefnogi

gweithgaredd llawr gwlad a chyfranogiad y gymuned yn y broses adfywio. Roedd angen herio'r strwythurau grym presennol a oedd yn atal adfywio cymunedol. Byddai hyn yn golygu newid y dulliau traddodiadol o weithio drwy ennyn cyfranogiad cymunedau a'u grymuso.

3.8 Dywedodd mai proses o ddatblygu cymunedau diwyd sydd wedi'u seilio ar gydraddoldeb a pharch o bob tu yw datblygu cymunedol. Roedd y broses hon yn cynyddu gallu mudiadau a phobl leol. Roedd angen canolbwyntio ar brosesau, nid dim ond ar ganlyniadau ac ystadegau. Roedd cyfranogiad yn hanfodol i ddatblygu cymunedol.

3.9 Tynnodd Derith Powell sylw at y prinder gweithwyr cymunedol medrus i dywys yr agenda adfywio cymunedol yn ei blaen. Roedd angen cyfleoedd dysgu gydol oes a oedd yn briodol, yn berthnasol ac o fewn cyrraedd hwylus. Byddai angen rhoi sylw i'r diffyg hyfforddiant datblygu cymunedol priodol er mwyn tywys adfywio cymunedol yn ei flaen yn llwyddiannus. Rhaid oedd hyrwyddo gwaith datblygu cymunedol, cefnogi ymarferwyr a chodi safonau.

3.10 Pwysleisiodd yr angen i fonitro a gwerthuso cynlluniau adfywio yn effeithiol. Byddai'n bwysig edrych ar brosesau nid dim ond ar ganlyniadau ac ystadegau.

3.11 Awgrymodd Derith Powell fod y cynlluniau cyllido presennol yn aml yn creu gwrthdaro a chystadleuaeth fewnol o fewn cymunedau a rhwng grwpiau cymunedol. Roedd grwpiau cymunedol o dan bwysau parhaus i sicrhau cyllid digonol i brosiectau a chynlluniau. Roedd cymhlethdod y ffynonellau cyllido a'r broses ymgeisio yn ychwanegu at hynny. Roedd angen darparu cyllid craidd i asiantaethau datblygu cymunedol sydd wedi profi eu bod yn gallu gweithio'n llwyddiannus gyda chymunedau.

3.12 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cytunai'r Pwyllgor fod angen symleiddio'r drefn o gyllido gwaith adfywio cymunedol a symleiddio'r broses ymgeisio. Yn ogystal, awgrymwyd y dylai cyllid craidd, cynaliadwy, gael ei ddarparu ar gyfer gwaith datblygu cymunedol er mwyn helpu i adfywio cymunedau difreintiedig. Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â'r gallu i wahaniaethu rhwng gweithgareddau craidd a gweithgareddau twf at ddibenion ceisiadau cyllido.

- Nodwyd bod y sectorau gwirfoddol a statudol yn gweithio gyda'i gilydd yn gynyddol i ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc. Nodwyd bod llawer o brosiectau unigryw, llawn dychymyg wedi'u datblygu mewn ymgais i ennyn cyfranogiad pobl ifanc sydd wedi'u dadrithio. Fodd bynnag, roedd disgwyl yn aml i'r sector gwirfoddol ymgyrchu am adnoddau i dywys y prosiectau hyn yn eu blaen. Teimlid bod angen i bartneriaethau wneud rhagor o waith i ddatblygu cynlluniau sydd wedi'u hanelu at helpu pobl ifanc.

- Codwyd pryder yngln â'r diffyg gweithwyr datblygu cymunedol. Byddai'n rhaid mabwysiadu agwedd strategol tuag at gynyddu cyfleoedd hyfforddi priodol a pherthnasol mewn datblygu cymunedol.

3.13 Ailadroddodd Irene Norman yr angen i roi sylw i'r prinder sgiliau yn y maes datblygu cymunedol. Roedd angen hyfforddi nifer sylweddol o weithwyr datblygu cymunedol i ateb y galw ar hyn o bryd o fewn y farchnad lafur. Yn gyntaf, byddai'n rhaid mynd i'r afael â'r diffyg athrawon datblygu cymunedol sydd wedi ymgymhwyso.

3.14 Teimlai fod hygrededd, profiad gwirioneddol ac uniondeb galwedigaethol yn rhagangenrheidiau i yrfa ym maes datblygu cymunedol. Awgrymwyd bod yna sinigiaeth ymysg grwpiau cymunedol a'i bod yn bwysig osgoi gweithredu er mwyn sioe yn unig. Roedd yna gyfoeth o ddoniau, sgiliau ac arbenigedd o fewn cymunedau, y gellid eu defnyddio er budd y cymunedau hynny.

3.15 Awgrymwyd y dylid mabwysiadu agwedd hyblyg tuag at ddysgu, a fyddai'n caniatáu i unigolion aros o fewn eu cymunedau eu hunain ac ymgymryd â lleoliadau tra'n ennill cymhwyster gradd alwedigaethol. Teimlid y gallai'r meini prawf derbyn ar gyfer hyfforddiant datblygu cymunedol ganolbwyntio ar brofiad ymarferol. Gellid cyfuno hyn â chyflwyno bwrsariaeth, a fyddai'n gwneud dysgu ym maes datblygu cymunedol yn ddichonadwy yn ariannol i unigolion o'r cymunedau sydd â'r diffyg mantais mwyaf.

3.16 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Codwyd pryder y byddai cymunedau'n dioddef pe na bai staff profiadol, medrus ar gael i ateb y galw presennol am weithwyr datblygu cymunedol. Mae'r sefyllfa hon yn deillio o'r momentwm sydd wedi ennill tir wrth i'r agenda cynhwysiant cymdeithasol gael ei rhoi ar waith.

- Roedd y Pwyllgor yn pryderu yngln â'r prinder athrawon ym maes datblygu cymunedol. Byddai'n bwysig datblygu mesurau priodol i ddenu'r rheini sydd â phrofiad ymarferol yn y maes i mewn i gyfleoedd hyfforddi i fod yn athrawon.

- Nodwyd bod diffyg hyblygrwydd o fewn y gyfundrefn budd-daliadau lles yn rhwystr yn aml rhag manteisio ar gyfleoedd hyfforddi.

3.17 Pwysleisiodd Jenny Turner yr angen i recriwtio gweithwyr medrus i gefnogi ac ysgogi gweithgaredd cymunedol. Dywedodd fod gweithwyr profiadol yn holl-bwysig er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol ym maes datblygu cymunedol. Roedd selogion llawr gwlad yn aml yn dod â chyfoeth o brofiad a gwybodaeth leol yn eu sgîl.

3.18 Amlinellodd Jenny Turner y model cefnogi a hyfforddiant cam cyntaf ar gyfer selogion yn y gymuned a gwirfoddolwyr llawr gwlad, a ddatblygwyd gan Community Agents of Change for the Valleys. Y pedair egwyddor wrth wraidd y drefn oedd rhwydweithio ar draws y Cymoedd; dulliau cyfranogol; gweithredu cyfannol; a chael arbenigwyr wrth law ond nid yn rhedeg y sioe. Ceisiai'r

model hwn ddenu a chynnwys pob lefel mewn cymunedau, ac roedd hynny yn hwb i ddatblygu hunanhyder ar gyfer gweithgaredd cymunedol. Roedd yn paratoi unigolion ar gyfer hyfforddiant pellach a'r trawsnewid maes o law i waith cyflogedig neu waith di-dâl i gynorthwyo cynlluniau adfywio.

3.19 Cymeradwyai'r Pwyllgor yr agwedd tuag at hyfforddiant a fabwysiadwyd gan Community Agents of Change.

3.20 Diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr am roi eu cyflwyniadau gerbron y Pwyllgor ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.